



CÂN NEU DDWY

T. ROWLAND HUGHES

Argraffiad Cyntaf — Rhagfyr 1948

Argraffwyd gan Wasg Gee, Dinbych

1

"GWILYM R."

*a gredodd fod y defaid colledig hyn
yn werth eu corlannu*



CYNNWYS

	<i>Tud.</i>
Coeden Afalau	7
Actor	8
Llan-y-Dŵr	9
Pe Bawn I	10
O'r Gongl	11
O, Dirion Dir	12
Ras	14
Manion	16
Yr Hen Delynor	18
Harddwch	19
"Cynddilig"	21
Hwyrnos	23
Salem	25
Steil	26
Hen Weinidog	27
Eryn	28
Bethesda'r Fro	29
Thomas William	30
Y Tyddyn	31
Gwanwyn	32
Gwên	33
Ar y Palmant	34
Blychau	35
Branwen	36
Crib Goch	37
Aderyn Branwen	38
I Fardd	39
Y Di-waith	41
Y Plên	42
Yr Hen Fyd	43
Rhyfel	44
Y Sioe	45
Y Pren Ceirios	46
Nos Nadolig	47
Y Llwyd Freuddwydiwr	48
Penseiri	51
Ysgrin yn Nhyddewi	53
Y Ffin	54



COEDEN AFALAU

Mae'r goeden 'falau ym mhen yr ardd
Yn un rhyfeddod o fiodau hardd,
Fel pren dan eira wrth ffenestr dlos
A'i golau'n ffrydlif ar hedd y nos,
Fel cwmwl o wlân
A'r machlud yn dân—
'Fu coeden erioed mor lluniaidd, mor lân.

Mae pawb yn dotio o'i gweld mor hardd,
Y goeden 'falau ym mhen yr ardd.
Ond fel y canant ei chlodydd hi
Mae dagrau'n cronni'n fy llygaid i,
Oherwydd wrth droed
Y goeden fe roed
Hen gyfaill a fu'r ffyddlonaf erioed.

Fe ffrwydra harddwch drwy'i changau hi
Yn llon bob gwanwyn uwch bedd 'r hen gi,
Yn wynder tanlli, yn eira glân
Ag arno ruddwawr a golau tân.
Ond ffeiriwn ei hud
A'i lledrith i gyd
Am orig o'r llais sy bellach mor fud.

ACTOR

(*Lyn Joshua*)

Milwr, morwr, tincer, teiliwr,
Rhyw goegyn ffôl, neu waeddwr ffair—
Ni waeth beth fyddai, haeddai'r actor :
“ Ardderchog, Lyn, bôî, gwych bob gair ! ”

Weithiau, llusgo tua'r stiwdio
Ac yn ei wedd y nos ddi-hun;
Cellwair, canu, actio, chwerthin,
A thwylllo pawb ond ef ei hun.

“ *Well, so long, boys,* ” meddai'n siriol
Wrth droi un nos i'r gwynt a'r glaw :
Dim ond ef ei hun a wyddai
Nad actio 'r oedd wrth ysgwyd llaw.

LLAN-Y-DŴR

Ni fûm erioed yn Llan-y-dŵr,
Ni fûm, nid af ychwaith.
Er nad oes harddach man, 'r wy'n siŵr,
Na Llan-y-dŵr
A'i fyd di-stŵr,
Nid af, nid af i'r daith.

Bûm lawer hwyr yn crwydro'r rhos
A dringo'r bryn gerllaw
I weld rhyfeddod min y nos
Yn fantell dlos
O aur a rhos
Am hedd y pentref draw.

Fe chwalai'r tonnau arian ddŵr
Hyd dywod aur y fan,
A throï gwyllanod di-ystŵr
O'r arian ddŵr
I gylchu tŵr
A mynwent hen y llan.

Ond gwn ped awn i Lan-y-dŵr
Y cawn i'r adar hyn
Yn troelli'n wyllt a mawr eu stŵr
O gylch y tŵr,
A'r arian ddŵr
Yn ddim ond ewyn gwyn.

Ni fûm erioed yn Llan-y-dŵr,
Ni fûm, nid af ychwaith.
Er nad oes harddach man, 'r wy'n siŵr,
Na Llan-y-dŵr,
A'i fyd di-stŵr,
Nid af, nid af i'r daith.

PE BAWN I . . .

Pe bawn i yn artist mi dynnwn lun
Rhyfeddod y machlud dros benrhyn Llŷn :

Uwchmynydd a'i graig yn borffor fin nos
A bae Aberdaron yn aur a rhos.

Dan Drwyn-y-Penrhyn, a'r wylan a'i chri
Yn troelli uwchben, mi eisteddwn i

Nosweithiau hirion nes llithio pob lliw
O Greigiau Gwylan a'r tonnau a'r rhiw.

Ac yna rhown lwybyr o berlau drud
Dros derfysg y Swnt i Ynys yr Hud :

Mewn llafn o fachlud ym mhellter y llun
Ddirgelwch llwydlas yr Ynys ei hun.

“Ond 'wêl neb mo Enlli o fin y lli.”

“Pe bawn i yn artist”, ddywedais i.

O'R GONGL

A ydi'r Gwanwyn yn crwydro'r gweunydd
A galw'i flodau i lannau 'r lonydd?
A deifl y nos o'r rhosydd—chwiban glir,
Daer, y gylfinir i'r dirgel fynydd?

A chwery o hyd glychau'r ehedydd
Uwch hen dawelwch a hun y dolydd?
Ar wyn antur y nentydd—a rydd clau
Emau, filiynau, eu gwefr aflonydd?

A ydi'r grug yn gawod ar greigiau
Hen yn Eifionnydd a'i dirion fannau?
A bau Harlech yn berlau—ac aur cryn,
A'i neidr o ewyn yn gain fodrwyau?

A'r clogwyn a'i nerth yn wyllt brydferthwch
A'r aer yn win hyd eithin Cwm Dwythwch?
A than y fron dirionwch—gwaun a gwig,
A hedd Dinorwig yn wyrdd dynerwch?

A ydi'r Gwanwyn . . . ?

'Hed yr ugeiniau
O lwyd, anghynnes, ddiles feddyliau
Yn chwim adar rhwng barrau'u—cawell hwy
I Fôn, i Fynwy, i addfwyn fannau
Yn Arfon ac Eifionnydd
A'u llwybrau dan gangau gwŷdd,
I hydref hen bentrefydd
Yn Llŷn ar derfyn y dydd.

Yn daer heŋo, fel adar Rhiannon,
'Hedant yn gôr wrth y môr ym Meirion
Ac aur fachlud Ardudwy
Ar lwydwyll eu hesgyll hwy.

O, DIRION DIR

Meddai brân ar ysgwydd y bwgan brain :
“ Pam nad ei di i ffwrdd ar bnawn mor ffain
I'r hwyl sy'n Nhref Hoen ac i'r sioe am swae
Yn lle gwylio'n flin ryw gomin o gae? ”

Ebe yntau'n chwyrn : “ Bu fy nhaid a'm nain
A'u teidiau a'u neiniau hwythau rhag brain
Yn gwarchod Ty'n Lôn a'i dirion dir
O oes i oes. Mynd i'r dre' 'na, wir !

“ Yma mae beddau fy nhadau. Fan hyn
Y clywais i'r mawl o gapel y Bryn,
Y dysgais i garu pob erw o dir
Yr henfro fwyn hardd. Mynd i'r dre' 'na, wir !

“ A pheth arall ”—wedi cysidro plwc—
“ 'Does gen' i ddim modd i drïo fy lwc
Yn ffwndwr y ffair sy wrth draeth y dre
A jolihoeitio a llancio drwy'r lle.”

“ Os byddai sofran fach felan o fudd . . . ”
“ Y gwir ydi'r gwir, 'fu gen' i'n fy nydd
'R un sentan am swae, ddim dima', myn dyn,
Imi dorri cyt a'm mwynhau fy hun.”

“ Os byddai chweugian . . . ”
“ 'Nid 'sofran' glywais i
Ryw funud yn ôl ar dy dafod di? ”
“ O, wrth gwrs, cweit, cweit, ni thynnwn yn groes.
'Does dim modd twyllo hen Gymro, nac oes? ”

* * *

Pan ddychwelodd yn hwyr, 'r oedd brain y byd
Yn clwydo'n foliog hyd gloddiau'r cae ŷd.
“ Y taclau barus! Wel, brensiach y brain! ”
A dawnsiodd fel dyn yn droednoeth mewn drain.

“ *I beg your pardon!* ” meddai pennaeth y set.
“ O, sorri, ” 'bc yntau, gan gyffwrdd ei het.

RAS

Dau yn unig oedd yn y ras,
Sammy *Rose Bank* a Ned Tŷ Glas.
Traed chwarter-i-dri
Ned Bach aeth â hi,
Er 'u bod nhw mewn clocsia'
A thylla' yn y gwadna',
Ac er bod 'i goesa', druan o Ned,
Mewn hen drowsus i'w dad, un melfaréd,
A hogyn *Rose Bank*
Yn goblyn o lanc
Efo'i 'sana'-beic
A'i esgidia' speic.

Pedwerydd oedd Sam.

"Y? Be'?
Ped-? Pe-?
Yr hen lolyn, gwranda,
Dos yn d'ôl i'r dechra'.
Pwy ddwedaist ti gynna' oedd yn y ras?"

Dim ond Sammy *Rose Bank* a Ned Tŷ Glas.

"Dau. Dim ond dau i gyd.
Felly, sut yn y byd . . ."

Yn y byd, be'?

"Y mae 'na le
I stwmsian am drydydd,
Heb sôn am bedwerydd.
'D oedd ond dau yn rhedag . . ."

'Waeth hyn'na na chwanag,
Pedwerydd oedd Sam.

*" Ond gwranda, go fflam,
Dau yn unig oedd yn y ras . . . "*

Sammy Rose Bank a Ned Tŷ Glas.

*" Ia, ia, mi wn i hynny,
Sammy Rose Bank a Ned, ac felly . . . "*

Pedwerydd oedd Sam.

*" Ond gwranda, y dyn,
'Wna dau a dim un
Ddim pedwar
Un amsar . . . "*

Pedwerydd oedd Sam.

'R oedd 'i dad a'i fam
Yn rhedag bob cam
Wrth ochor 'u Sam.
'R oedd 'i Dadi a'i Fami
Fel arfer efo Sami,

A phedwerydd oedd Sam.

MANION

EIRA

Mae'n wynnach na'r rhosyn,
Ysgafnach 'i hynt
Na dafnau o ewyn
Ar wyneb y gwynt.
Ond crynu mae'r adar ar glawdd a tho,
Heb un yn barddoni amdano fo.

BUGAIL

Neithiwr trois yng ngolau'r lleuad
Heibio i'r fynwent fach a'i hedd,
Ac mi welwn ryw hen ddafad
Wrthi'n pori ar ei fedd.

AREITHIWR

Llais Twm Penwaig a'i 'stumiau a'i floedd:
Ond 'r oedd penwaig ffres gan Twm, on'd oedd?

NI

Ia, rhai go ryfadd ydyn' hw', yntê,
Y fo a hi,
A phawb drwy'r stryd 'ma, ac yn wir, drwy'r lle—
Ond chi a fi.

WEDI DARLLEN ADOLYGIAD

Owys o siag, pwys o siwgwr . . .
Ond pacio nwyd breuddwydiwr
Swydd diclis oedd, daclus ŵr.

WEL, WIR

Breuddwydiodd John Jones iddo siarad ar goedd
Y Seiat am noson gyfan.
A phan ddeffroes, yn y Seiat yr oedd
Yn stwnsian.

YR HEN DELYNOR

A welsoch chwi'r telynor hen
I lawr wrth bont y dref?
Mae pawb sy'n pasio'n rhoddi gwên
A cheiniog iddo ef.
O gainc i gainc, heb aros dim,
Mae'n werth cael gweld ei fysedd chwim
A gwranddo swyn ei delyn fwyn
I lawr wrth bont y dref.

Pan dyfaf i yn ddyn, mi af
A'm telyn gyda mi
At bont y dref bob hwyr o haf
I diwnio'i thannau hi.
Fe fydd fy nghap yn llawn o bres
A phawb wrth basio'n dod yn nes
I wrando swyn fy nhelyn fwyn
I lawr wrth bont y dref.

HARDDWCH

“Ti a’i cei”, medd un, “yng nglendid y wawr.”
A thrannoeth, cyn dydd, mi a ddringais y bryn
i weled holl liwiau’r wawr.
Ond dychwelais a’ m calon yn drom.

“Ti a’i gweli”, medd arall, “yng ngerddi’r rhos.
Yno y chwery, yno y chwardd.”
Cerddais yn hir yng ngerddi’r rhos, a phluf y
petalau yn llithro i’r lawnt.
Ond nid oedd yno ond blodau a choed, ac ni
chlywais mo’i chwerthin ef.

Medd arall, a’r môr yng nglesni ei drem: “Ym
min y môr y clywi ei lais, lle plyg y tonnau eu
gwyrdd a’u gwyn. Ef yw telynor eu cerddi
hwy.”

Crwydrais y traeth am oriau maith, ond nid oedd
yno ond ton a thon a lleddf ddjarhebion y
môr.

“Os deui”, medd bugail, “i greigiau’r foel, ti a’i
gweli hyd lethrau’r grug.”
Dringais yn llawen i’r gwyntoedd hir a cherdded
y rhosydd llwyd.
Ond hen ac unig ac araf fy ngham pan ddychwel-
ais hyd lethrau’r wŷn.

Medd bardd: “ Yn hud y machlud y mae.”

Blin oedd fy nhraed wrth ddringo'r bryn, a'r hwyr
yn aur ac oren a rhos.

O'r brig ni welwn ond haul ar wŷr, yn suddo i
goed ymhell.

Yna medd arall, a'i lais yn dawel a chryf: “ Mae
coeden geirios yn flodau'n fy ngardd, a'i
changau yn rhwydo'r sêr. Dani y gorffwys
Harddwch liw nos.”

Syllais yn hir ar y sêr drwy'r gwlan, ond ni welais
ei fantell, ni chlywais mo'i anadl ef.

Llusgai fy nhraed ar fy nhaith tua thref, a syrth-
iais ar fin y ffordd.

Llifodd y gwyll i'm llygaid llesg.

Pan lithrodd y golau i'm meddwl yn ôl, mi a
glywn dynerwch lleisiau o'm cylch, mi a
welwn addfwynder llaw a threm.

Mil harddach oeddynt na'r wawr a'r rhos, tecach
na golud machlud a môr.

Trannoeth, mi a ddringais y bryn â'm calon yn
llon,

A gwelwn fod popeth, popeth yn hardd.

“CYNDDILIG” (T. G. J.)

Yr *oedd* hi'n stori fawr.
Ond bu'n fwy na'r stori
Y llaw a'i rhoes i lawr,
A'r galon ar dorri,
A alwodd, a'i hudlath uwch meirw'r glyn,
Yr hir lonyddwch i harddwch fel hyn.

Cynddilic, Llywarch, Gwên,
A'u henbyd awr—
Yr *oedd* y stori hen
Yn stori fawr.
Ond aethai, fel hwyrnos
Dros bell orllewin,
I angof pob unnos,
Nes hudodd dewin
Y lliwiau meirwon yn ôl bob un
I nef ddi-fachlud y perffaith lun.

Yr henwr a'i 'stên
Yn deilchion ar lawr
Wrth ffynnon pob gwên,
Pob tirion awr—
'R *oedd* y stori hen
Yn stori fawr.
Ond mud y garnedd
Uwch Gwên a Chynddilic

Ac anghyfannedd
Y dyddiau pellennig
Nes dyfod y swynwr
Lle'r wylodd yr henwr
A thynnu'r floesg, doredig gŵyn o'r gwynt
A throi'n ddiangof gân y gofid gynt.

Yr oedd hi'n stori fawr.
'Oedd hi? Y *mae* hi'n awr,
Ac anadliadau bywyd yn y glyn
A bythol nwyf i'r lladdedigion hyn.

HWYRNOS

Tu allan, gwylan yn hwylio o'r golwg
heibio i'r Trwyn: neb ar y traeth:
yr hir ewyn yn derwyn wrth dorri:
y lliwiau yn nef y gorllewin—
aur mâl, tân a phorffor a melyn
a rhos yr hwyrnos—yn rhyw
bylu'n araf fel y suddai'r belen eirias
tu ôl i gaerau tawel y gorwel,
caerau o gymylau a'u myrdd
o dyrau yn dyrau o dân:
petrus sêr: ym mhellter y môr
hwyl wen ar fin diflannu
o'r hwyrnos a'r rhuddwawr arni.

I mewn, y pen mor wyn â'r gobennydd;
y gwallt hen yn un gwylltineb
wedi amarch y dwymyn;
y lliw ar y talcen llaith,
ôl gwan haul a gwynt
ac ewyn, yn glytiau llwydwyn; un llaw
egwan yn cau ac agor,
agor a chau, mewn gwewyr; y chwys
uwch y gwefusau
yn berlau croyw, gloyw fel gw lith.
Yna geiriau yn ceisio ymgyrraedd
am ennyd drwy'r cyflym anadl,
ysbrydion hun: "Rho sbrêd yn'i, Huw . . .
rho . . . sbrêd yn yr hwyl . . .
gwynt o'n hôl . . . glan yn y golwg . . .
glan . . . a hafan . . . 'r hen Huw . . .
Rho sbrêd . . ."

Yna'r sibrydion

bloesg yn ddim ond anadl blin,
yn fawr yn y distawrwydd
ennyd cyn edwino . . .

O gyrrau pella'r gorwel
hwyl wen yn araf ddiplannu;
arni, aur yr hwyrnos,
a'r nef ar wŷr i'r nos.

SALEM

(Y darlun gan Curnow Vosper)

Siân Owen Ty'n-y-Fawnog yw'r hen wraig
A wisga'r siôl a'i hurddas benthyc, mwy,
Hen wreigan seml a chadarn fel y graig
Uwch Cefncymerau, lle'r addolant hwy,
Y cwmni gwledig ar ddiarffordd hynt—
Siân Owen, Wiliam Siôn ac Owen Siôn,
A Robat Wiliam o Gae'r Meddyg gynt,
A Laura Ty'n-y-Buarth fwyn ei thôn.

Mi gwrddaf wybodusion llawer byd,
Y prysur-bwysig, y ceffylau blaen,
A chlychau'u harnes, heb un eiliad fud,
Yn gyrru powld, fawreddog sŵn ar daen.
Mor felys wedyn yw eich byd di-sôn,
Siân Owen Ty'n-y-Fawnog, Wiliam Siôn!

STEIL

(*"Diwrnod Marchnad"*:
darlun arall o'r un hen wraig)

Yr oedd hi'n braf cael bod mewn steil
Am dro, Siân Owen, ond ni ddeil
Y siôl i'w gwisgo Sul a gwaith,
Na'r sgyrt o frethyn du ychwaith.

Yr oedd hi'n brafiach ffordd i lun
Drwy'r gegin, yn dy siôl dy hun,
Amdanat farclod llwydlas, glân,
A'th glocsiau am dy draed, 'r hen Siân.

Nid dweud yr wyf mai urddas ffôl
Oedd urddas bentyg, crand, y siôl.
Ond pam y syllit ti mor daer,
Mewn anesmwythyd, yr hen chwaer?

Yr wyf fi'n falch fod cysgod gwên
Ar d'wyneb yn y gegin hen,
A'th fod di'n llonnach yn y llun
Ohonot yn dy siôl dy hun.

HEN WEINIDOG

Ni regodd fyd,
a welai weithiau fel pe'n stremp i gyd.
Ni chaeodd ef ei law
mewn sydyn orthrech braw
am chwip o eiriau pigog, llym,
er dyfod i'r gewynnau rym
rhyw ddicter dwyfol lawer gwaith . . .
Edrychodd i'r blynyddoedd maith,
gan wybod yn ei galon fawr
y llithrai eto lewych gwawr
drwy'r niwl i gyd
ar dryblith byd.

Mae'n wir
na 'sgydwodd Gyrrddau Mawr ar hyd y tir
ac na phesychodd ffordd i'r Cyngor Sir.
A phan aeth ef i'w olaf taith,
'd oedd neb o bwys yn ei angladd 'chwaith,
na dim ond nodyn digon tlawd
mewn papur newydd am barchus frawd
a ddaeth cyn pryd i ben ei rawd.
Ond gwn am rai ym Mryn-y-glo
a fuasai'n marw drosto fo.

EMYN

Tydi, a roddaist liw i'r wawr
A hud i'r machlud mwyn,
Tydi, a luniaist gerdd a sawr
Y gwanwyn yn y llwyn,
O, cadw ni rhag colli'r hud,
Sydd heddiw'n crwydro drwy'r holl fyd.

Tydi, a luniaist gân i'r nant
A'i su i'r goedwig werdd,
Tydi, a roist i'r awel dant
Ac i'r ehedydd gerdd,
O, cadw ni rhag dyfod dydd
Na yrr ein calon gân yn rhydd.

Tydi, a glywaist lithriad traed
Ar ffordd Calfaria gynt,
Tydi, a welaist ddafnau gwaed
Y Gŵr ar ddieithr hynt,
O, cadw ni rhag dyfod oes
Heb goron ddrain na chur na chroes.

BETHESDA'R FRO

Fe fu'n draddodiad yn y Fro
Fod gwyngalch yn ei ddychryn O.

Gwyngalchwyd yntau, 'r hen Dŷ Cwrdd,
I gadw'r Diawl ymhell i ffwrdd.

A rhoddwyd simnai ynddo, i'r mwg
Gael llenwi ffroenau y Gŵr Drwg.

Nid ydyw'r gwyngalch heddiw'n lân
Fel 'r oedd o gynt, ac nid oes tân
Ar aelwyd fach yr hen Dŷ Cwrdd,
Na dim i gadw'r Diawl i ffwrdd.

THOMAS WILLIAM

Erys dy gapel gwyngalch yn y Fro,
Emynydd llwyd, ac wrth ei gadarn fur
Dy feddrod hardd, er dyfod rhyfedd dro
Ar fyd o'i gylch a chodi o faen a dur
Gartrefi'r plenau lle bu'r ychen gynt
Yn denu'r adar i haelioni'r gŵys
A'r gyrwyr a'u tribannau yn y gwynt.
Erys dy gapel pendrist yma'n ddwys.

Pa hyd, ni wyddom. Darfodedig yw
Y maen cadarnaf a'r caletaf derw;
A phe disgynnai'r bom anialwch gwyw
A fai'n Nhrefflemin fwyn a'r Fro bob erw.
Dim ond dy eiriau ar adenydd chwim,
"Adenydd colomen," ni fenid ddim.

Y TYDDYN

(*Efelychiad o ddarn gan yr Americanwr
E. Arlington Robinson*)

Maen' hw' wedi mynd i gyd
O'r tyddyn ar fin y llyn.
'D oes 'na ddim o'u hôl, dim byd.

Oedd, yr *oedd* o'n lle bach clyd
A'i waliau mor lân, mor wyn.
Maen' hw' wedi mynd i gyd.

Er iddyn' hw' 'i ddal o c'yd
A'r caeau wrth droed y bryn,
'D oes 'na ddim o'u hôl, dim byd.

Mae'r tyddyn yn noeth a mud
A'i dipyn o ardd yn chwyn.
Maen' hw' wedi mynd i gyd.

Mae'n wag ers 'wn i ddim p'ryd
A thyllau 'mhob ffenestr syn.
'D oes 'na ddim o'u hôl, dim byd.

Mae'n drist 'i weld o o hyd
Yn unig a llwm fel hyn.
Maen' hw' wedi mynd i gyd:
'D oes 'na ddim o'u hôl, dim byd.

GWANWYN

“ Mi wellaf pan ddaw'r gwanwyn :
Bu'r gaeaf 'ma'n un mor hir.
A oes 'na argoel eto
Fod gwennol yn y tir?
Mae hi'n anodd mendio dim fel hyn
A phen yr Wyddfa i gyd yn wyn.

“ Mi ddo' i at y gwanwyn
A chodi cyn daw'r gog.
Mi ddo' i pan gynhesith
Yr awel ar y glog.
Mae hi'n anodd mendio dim fel hyn
A phen yr Wyddfa i gyd yn wyn.

“ Mi godaf at y gwanwyn :
A welaist ti oen ar fryn?
On' fydd hi'n braf cael stelcian
Am dipyn wrth y llyn?
Mae hi'n anodd mendio dim fel hyn
A phen yr Wyddfa i gyd yn wyn.”

* * * *

Ni ddaeth rhyfeddod gwanwyn
Â'r gwrid yn ôl i'w wedd :
Ond pnawn o Ebrill tyner
A'n dug ni at ei fedd.
A chanai'r gog yng Nghoed y Ffridd
Pan glywn i'r arch yn crafu'r pridd.

GWÊN

Na,
Peidiwch â thynnu'r llenni i lawr.
Gadewch i'r pelydryn rhudd
Chwarae ar wynder ei grudd.
Peidiwch â thynnu'r llenni i lawr:
'R oedd hi mor hoff o olau'r wawr.

Na,
Peidiwch â mynd â'r blodau i ffwrdd.
Gadewch i'w haroglau hwy
Oedi o'i hamgylch hi mwy.
Peidiwch â mynd â'r blodau i ffwrdd:
Ei dwylo hi a'u dug i'r bwrdd.

Na,
Peidiwch ag wylo funud awr.
Er mynd ei direidi hi,
Ni fynnai mo'ch dagrau chwi.
Peidiwch ag wylo funud awr:
Nid aeth ei gwên—mae hi'n gwenu'n awr!

AR Y PALMANT

Bwthyn, hen felin, ac afon wen,
A defaid yn pori'r fron,
Rhyw ddarn o graig yn cau uwchben
A thano'r eithin yn don,
A muriau ysgwâr rhyw gapel llwm
Yn swatio'n unig i fyny'r cwm.

Gwyliodd y dyrfa'n mynd heibio i'r llun
Ar eu prysur hynt, ond nid oedd un
Â cheiniog yn sbâr i henwr llwyd
Na fedrai ennill ei damaid bwyd.

Dim ond geneth fach o stryd gerllaw
A ddaeth i syllu ar ôl ei law,
I weld am y cýntaf tro erioed
Ryfeddod bwthyn ac afon a choed,
A muriau ysgwâr rhyw gapel llwm
Yn swatio'n unig i fyny'r cwm.

BLYCHAU

“ Nid ydynt hardd, eich hen addoldai llwm.
Pa ddwylo a’u lluniodd hwy
yn flychau sgwâr, afrosgo, trwm,
yn foel, ddiramant, hyd y cwm,
heb orchest bwa na mireinder sgrin,
heb ffenestr liw a’r lliw fel gwin
hwyr a gwawr :
pa ddwylo blin a’u lluniodd hwy,
eich hen addoldai mawr? ”

“ Nid ydynt hardd i chwi, mae’n siŵr,
heb orchest bwa na mireinder tŵr,
ond ynddynt hwy, er trwsgl eu trem—
Caersalem, Seion, Soar, a Bethlehem—
y plygodd y gwerinwr lin,
y naddodd salm o’i oriau blin,
y dyblodd gân a’r gân fel gwin,
y rhoes,
yn nyddiau hedd a dyddiau loes,
ei deyrnged hardd i Wŵr y Groes.

“ Nid ydynt hardd, fy ffrind, i chwi,
ein hen addoldai mawr, di-ri,
ond hwy a’n gwnaeth,
o’r blychau hyn y daeth
ennaint ein doe a’n hechdoe ni,
os llwm eu llun, os trwsgl eu trem,
Caersalem, Seion, Soar, a Bethlehem.”

BRANWEN

“ Yn llwyd llwyd hyd y lli
di-gwsg, digysgod,
yn niwl llwyd hyd anial y lli
y daw'r wawr : dihyder yw
uwch anhygyrch unigedd
y môr maith.

“ Ni chyffry adar : dim ond galar gwylan
a ddaw i'r awel yn weddi o'r ewyn
draw, rhyw gri drist,
anorfod, gynhyrfus.

“ Gynnau, tybiwn y gwelwn drwy'r gwyll
hwyliau têr ym mhellter y môr,
ugeiniau o hwyliau ar heli,
a'm haderyn cain yn eu harwain hwy . . .

“ Breuddwyd oedd, ebrwydded â
gwawn y gweunydd,
breuddwyd a gipiwyd i'r gwynt,
a fu loyw, ennyd, cyn diflannu
o'i hyder ef gyda'r wawr
yn rhith llwyd uwch anrhaith y lli,
uwch anhygyrch unigedd
y môr maith.”

CRIB GOCH

Gwaedda—

ni chynhyrfi braidd y llethrau hyn,
rhaeadr y defaid maen,
y panig di-frys, di-fref,
y rhuthr pendramwnwgl, stond:
a fugeiliodd mynyddoedd iâ,
a wlanodd rhew ac eira a niwl,
a gneifiodd corwynt a storm
yng nglas y byd—
ni ddychryni'r rhain.

Gwaedda—taff dy raff

(oni chipia'r gwynt dy edau o lais)
fil o droedfeddi crog
am gyrn y tarw-wyll sy a'i aruthr dwlc
rhyngot a'r dydd.

Gwaedda—

Ni thâl geiriau yma:
onid doe y ganwyd hwy,
y baban-glebrwyd hwy
mewn ogof fan draw?

ADERYN BRANWEN

(I Ll. Wyn Griffith wedi gwranddo arno, yn Harlech, yn rhoi ffurf fodern i stori Branwen, gan adael yr aderyn allan. Pan dynnai at ddiwedd y stori, wele aderyn yn curo'n daer ar wydr y ffenestr)

A gofi'r hwyr pan lithrai'r dydd i'r aig
uwch llosg lonyddwch Llŷn,
a thithau'n denu yn ôl i'w chraig
yn Harddlech y ryfeddol fun
a roes i harddwch dristwch, dro,
i dristwch harddwch byth,
ac i'r aderyn hwnnw nyth
uwch pob rhyw chwedl a fu, a fo?

Ti a'u gelwaist hwy yn ôl bob gŵr—
Matholwch ac Efnisien, Nisien, Brân—
a gyrru eilwaith Franwen dros y dŵr
i weddi o'i gwawd a'i throi'n ddi-gân.

Ond ni ollyngaist ti'r aderyn hoff i'r nef:
rhyw rith o'r oesoedd pell oedd ef
nad aeth erioed o fôr i dir—
rhyw gelwydd golau wedi'r gwir.

A gofi—na, ni hed o'r co'—
annisgwyl hwrdd ei adain o,
a churo a churo dig
y taer diwrthod big?

Ar hedd yr hwyr
nid oes a wŷr
o b'le y daeth. O fôr? O dir?
Ond gwyddai ein distawrwydd hir
nad celwydd oll, nad celwydd oll mo'r gwir.

I FARDD

*Pinwydd pell yn olaf aur yr hwyr,
Huodledd mud y maen a wybu'r cŷn,
Lôn yn Eifionnydd, hufen y traeth yng Ngŵyr,
Neu fwing y niwl ar benrhyn llwyd yn Llŷn,
Chwerthin plant, llonyddwch beddau . . .*

Ond pam nad aethost i'r cynadleddau
a dioddef curo o'r gwaed
cyn codi ar dy draed
i gynnig neu i eilio,
codi yn ddi-feth
i gynnig neu i eilio
'd oedd dim gwahaniaeth beth?

*Drws agored ac arno fflam
O aelwyd gynnes gyda'r nos,
Llyn dan y lloer, rhyw ffŵl mewn ffos
Yn feddw gorn . . .*

Ond dyna, pam
na fedret tithau fforddio hwrdd
o is-bwyllgora ar ryw Fwrdd
a cherdded adref â'r gohebydd
gan gofio cofio'r darn o gywydd?

*Llwybr yn wyn fel ffrwd drwy'r ffridd,
Dryslud ddwylo rhyw henwr llwm,
Afonydd dyfroedd, aroglau hen y pridd,
Neu fysedd oer y gwynt hyd gern y cwm . . .*

Ond pan na ddeuai cân neu gywydd,
anghafiaist yrru i'r papur newydd
bwt o air yn cau dy ddwrn
a haeru bod y peth yn fwrn—
treuliau gwŷr y Cyngor Sir,

neu druenusrwydd radio'r tir,
neu rywbeth bach i ddeffro'r miloedd
a dwyn dy enw o flaen y cyhoedd.

*Llygaid yn marw wrth wely gwaeledd,
Rhwd y rhedyn, hoen rhianedd . . .*

Ond ni fynychaist, wŵr anniddig,
seiadau moethus hyd Amwythig
a pham na welodd y dyrfa syn
esgud gam dy 'sgidiau gwyn?

Na hidia: fe ddaw dydd rhag blaen
y codir ar dy fedd aruthrol faen
o farmor gwyn,
a chyrch minteioedd war y bryn
i weld dy fwrdd a'th lyfrau a'th bin dur
a thorri eu henwau'n ddwfn ar lech y mur.

Cymer gysur:
fe ddaw'r gŵr prysur
o ganol holl drafferthion maer a moeth
i roi pesychiad hir, gofalus, doeth,
ac araith ddwys o dan dy fargod
a chadwyn aur yn sgleinio ar ei wasgod.
Ef a gyhoedda i'r byd yn hy,
cyn dadorchuddio'r dabled ar y tŷ,
na fu erioed, ond yn y Beibl hen,
hm . . . fardd mor fawr mewn unrhyw lôn,
ddim un, gyfeillion, na, dim un,
a naddodd eiriau'n harddach llun
o bob rhyw wên a phob ochenaid
a wybu ac a wŵyr . . . hm . . . enaid.

Â'r bys i gyfeiriad y marmor hardd,
Y llais a darana—"Wele fardd!"

Y DIWAITH

Oni thry gwael o'i aelwyd
I wŷdd lleng y gruddiau llwyd?
Yn ddi-waith, ni wêl weithian
Ond mwg llin chwerthin a chân.

Dringo'r allt megis alltud
Llwyr y mae, is cellwair mud
Twr y syfrdan beiriannau.
Oeda'n brudd wrth goedyn brau
Dôr y gwaith, oedi a'r gwynt
Yn gyrru ei oer gerrynt
I'w esgyrn . . .

Clyw gyrrn y gwaith

Yn ei alw yntau eilwaith,
A sŵn traed yn atsain trwy
Gydol pob hewl ac adwy.
Daw lleisiau o'r drysau, dro—
“Hylô, Dai!” “Pa hwyl, Deio?”—
A gwawr arian uwch anial
Ysgwyddau y tipiau tal . . .

Gerllaw'r olwynion tawel
Breuddwyd gwyw ydyw a wêl.
Hyd eira'i groen dua'r graith,
Oni wybydd anobaith,
Yn ei lwydwedd ond gweddi
A garw awch ei ofer gri—
“O Dduw, rho, dyro i'n dydd
Ynni taer yr hwterydd,
Ennyd wyllt i'w nwyd alltud
A'r gân mwy i'r genau mud.”

Y PLEN

Rhywle,
yn uchel uchel rhwng y nos a'r sêr,
uwch lledrith y cymylau gwawn,
fe daena plên ei sŵn.
I mi a thi a thithau, dim ond grŵn
cyfeillgar, cynefindra lleddf,
a'n clust yn ddifater, y meddwl ymhell.
Ond acw, yn ehangder pell y nef,
ni syfl y llygad, ni phetrusa'r llaw,
ni lacia'r nerf yn y gewynnau dur,
a thorrodd meddwl lyffetheiriau'r pridd,
cadwyni'r clebran, rhwymau heddiw-a-doe,
y mân ofalon, a'r fffuantrwydd oll.
Maent ifanc, eiddgar, noeth,
yng nghwmni'r hen ddoethineb sy'n y sêr
a'r hen hen gân a roed i'r gwynt.

I mi a thi a thithau, dim ond plên
cyfeillgar, cynefindra lleddf,
ar hedd yr hwyr.

YR HEN FYD

(*"The old world is dead": Anthony Eden*)

Bu farw'r byd a wyddem, meddant hwy.
Mae rhodres yn ei fedd,
ac ni bydd rhagrith mwy.
Fe droes eiddigedd ei annhyner wedd
i'r wal, a threngi'n boenau i gyd
yn sŵn y plênau
a rhyferthwy'r peiriannau
sy'n llunio'r newydd fyd.
Mae wyneb daear fel y nef
o ganu'n iach i'r Stiward Bach
a'i holl daeogrwydd pwysig ef.
(Ni thyciodd llyfu-llaw yr olaf tro:
'r oedd Angau yn rhy gall i'w driciau o.)

Fe doddir trais a gormes a gwneud-pres
yn ffwrnais fawr y rhyfel, meddant hwy:
fe dawdd pob llid, pob celwydd, yn y gwres,
ac ni bydd wylo mwy.

Bu farw'r byd a wyddem a'i holl naws,
a throes yr Wyddfa, meddant hwy, yn gaws.

RHYFEL

Heddiw, diddanwch yr hardd dyddynnod,
Yfory, dannedd yng ngyddfau'r dinod
A thaenu ar fythynnod—fflamau'r dur
Didostur yn rhu'r anfad eryrod,

Gan hoelio'r fam a'i chur dan falurion
Safnrhwth y bwth a fu'n llawn gobeithion,
A rhoi gwaed eu hergydion—hyd y bau,
A bwrw i'r muriau wynebau'r meirwon.

Y SIOE

'R oedd yno, unwaith, sgwâr o dai
Ac ugain teulu, fwy neu lai.
Ond canodd seiren groch un hwyr
A chwalodd bom y lle yn llwyr.

Am hanner blwyddyn, fwy neu lai,
Rhyw domen oedd lle safai'r tai,
Nes dyfod giang i'w chlirio i ffwrdd
A gwneud y sgwâr yn noeth fel bwrdd.

Ond heddiw y mae yno sioe,
Ceffylau pren a hwyl di-hoe,
A thrio'ch llaw ar hyn a'r llall,
Neu gadw'ch pres, os ydych gall.

Na phoenwch, feirwon, am eich sgwâr.
Fe roed i chwithau, dro, eich siâr
O'r hwyl a'r helynt sy'n y sioe,
Ac wedi'r cyfan, hir yw'r hoe
Pan fydd ein dydd yn ddim ond doe.

Y PREN CEIRIOS

Ni wyddost, bren y ceirios, fod y byd
yn glwyfau i gyd;
ni welaist, a'th ganghennau'n niwl o wllân,
y bwth di-gân
a'i grud a'i aelwyd hoff yn ddarnau mân.

Ni weli drwy dy flodau'r llun o fwth
a'i lygaid rhwth
fel llygaid penglog uwch dy harddwch gwyn
yn sylu'n syn
a methu â deall pam y mae fel hyn.

Yr wyt ti, bren y ceirios, yn rhy hardd
i fyd lle tardd
ffynhonnau dagrau o ddyfnderoedd cur.
'R wyt ti'n rhy bur
i fyd a'i nef yn llawn eryrod dur.

NOS NADOLIG

Nid ydyw'r bysedd heno rhwng y sêr
Yn ymbalfalu am eryrod dur.
Mae'n wyn fy myd a'r nos heb olau têr
Na chwyn y seiren yn darogan cur.
Ni fflachia'r dreigiau lle'r oedd safnau rhwth
Y gynnau'n cyfarth neithiwr ar y lloer,
Ni theifl taranau gryndod drwy fy mwth,
Ni chyffwrdd ofn fy ngrudd â'i dwylo oer.
O'm blaen mae'r Llyfr a'r bennod hynod hon
Am wŷr a ddaeth o fyfyr hen y rhos
I ddinas Herod falch â chamau llon
A'r newydd am a welsant hwy liw nos . . .
Liw nos. . . . A chwilia doethion heno'r nef
Am seren fach a'u dwg i'w breseb Ef?

Y LLWYD FREUDDWYDIWR

*“ A Moses, gwas yr Arglwydd, a fu farw yno, yn
nhir Moab . . . ac nid edwyn neb ei fedd hyd y
dydd hwn.”*

Bu'n fethiant, meddai rhai a'i gwelodd ef
Yn araf droi i'r cwm wrth odre'r gwynt—
Y gŵr digyrrith ei fwriadau fyrdd,
Yr hen freuddwydiwr llesg, ar ben ei hynt—
Y rhai ni chofient mwy
Eu tadau dan eu clwy
A'u maith anobaith hwy.

Ni chofient frath y fflangell a'r rhegfeydd
A gormes haul drwy giaidd ddydd o waith,
Y cefn gwyredig fel pe'n torri'n ddau
A'r gwaed fel morthwyl dan y talcen llaith.
Ni chofient wneuthur main
O bridd di-wellt, a'r brain
Yn llwyd uwchben y llain.

Ni chofient godi o'r main garchardai llwm
I'w brodyr ac i'w plant; ni chofient floedd
Y ffoi i'r nos o gyfyl ing y crud,
Pan ydoedd geni'n ddychryn a phan oedd
Marwolaeth yn rhyddhad,
Yr unig esmwythâd
O loes yr erchyll wlad.

Ni chofient hwy y baglu a'r griddfan gynt
A llawcio'r awyr yn y garpiog leng:
Ni chofient famau'n rhythu ar ddarn o wisg
Gan wybod na ddôl camau'n ôl i'r rheng.
Ni chofient fysedd cryn
Am flwch a'i lwch yn wyn,
A'u gwaed fel gwaed ar gynn.

Cadwyni, sgrêch yr allwedd yn y clo,
Mileindra'r chwip yn rhwygo'r gwaed o'r cnawd,
Wylofain gwragedd uwch celanedd plant,
Ysgriwiau newyn, hunllef llid a gwawd—
Ni chofient hirnos ddu
Y gaethglud fawr a fu
I lesg ddisberod lu . . .

P'le mae ei fedd, nid oes a wŷr, medd rhai,
Dim ond doethineb hen y nant a'r rhos;
Ond oeda ambell fugail dan y coed
A chamu'n araf wrth un garreg dlos
Yn ymyl llwyn o ddrain
Lle cyll y nant ei sain
Yn siant y ceunant cain.

A throedia wedyn gyflym lwybrau'r ffridd
Yn hoyw ac esgud, gyda'i hyder ef,
Gan ddringo weithiau tua'r brig uwchben
A'i gân ar adain rhwng y graig a'r nef.
O'i feddrod ef, lle chwardd
Yr awel fwyn, a dardd
Rhyw her, rhyw hyder hardd?

Uwch tARTH y rHosydd erys Nebo'n glir,
Yn ddewr ac unig tuag araul dir
Addewid a helaethrwydd, pob dyheu,
Pob breuddwyd y bu'r galon yn ei weu
Ar droell o haearn yng ngwylfeydd y nos.
Ac er na wêl anhysbys fedd y rHos
Y bywyd llawnach a thirionwch tir
Yr addewidion a'r gwastadedd ir,
Bu daer yr ymbil yn y dwylo gwyw.
Ef a freuddwydiodd gynt. A digon yw.

PENSEIRI

Llunwyr eofn golofnau
Uwch brys a thirionwch brau
A rhyfyg y canrifau—
Eu bri hwynt sydd i barhau.
De Leia¹, gawr huodl gŷn
A'i wyrthiau, yna Marthyn²
Ddiofer, a Gower³ gynt—
Cyflawn eu dawn: amdanynt
Nid mudan, ddi-yngan yw
Un maen o feini Mynyw.

O'u dwys anhunedd a'u hamynedd maith,
O ddawn blynyddoedd, nobl yw ei naddwaith,
Her ei cholofnau, a gorwych lafnwaith
Derw y gorfu mawr hyder ei gerfwaith.
O'r oes hen erys eu hiaith—ynddi hi,
A'u gorau ynni drwy'i holl gywreinwaith.

Melys fu llunio'i mynor allorau,
Cangell a chwfaint o gywraint gorau,
A thario'n hedd ei thyrau—i ganfod
Ei chysgod bob rhod yn araf hirhau.

¹Peter de Leia, y cyntaf o'r tri esgob a luniodd eglwys gadciriol Tyddewi.
Yr ail oedd

²Yr Esgob David Martyn (1296–1328), pensaer Capel y Gwragedd. A'r
trydydd

³Yr Esgob Henry de Gower (1328–1347), adeiladydd y plas a lluniwr yr
ysgrin enwog yng nghorff yr eglwys.

Yna llwydwyll Carn Llidi
Gyda'r hwyr, a'i gwydrau hi
Yn llam tua'r machlud llosg,
A'i daear fel pe'n diosg
Y gwyrdd i wisgo harddaf
Borffor a rhos hwyrnos haf,
A gloywon ymylon môr
Yn gyrru tros ei goror
Ar hedd ei mynor weddi—holl aur drud
Y machlud ar hyd ei cheinder hi.
Gwylio, rhodio, hir oedi—nes i'r nos
Ddwyn rhos yr hwyrnos oddi arni.

YSGRIN YN NHYDDEWI

Y sgrin yn wyrth? Mae ei esgyrn wrthi—
Gower, a naddodd ei gywrain weddi
O flaen gwyn fel ewyn ar li.—Hudwyd
Holl nwyd ei freuddwyd a'i lafur iddi.

Gwelwch y cain naddiadau ugeinmil
A lle bu'r cŷn ar hyd llwybrau cynnil
Yn agor swp o flagur swil,—dilwch,
Heb rwygo heddwch y brigau eiddil.

Y FFIN

“Ie, Arglwydd,” ebe’i wŷr wrth Fatholwch, “pâr weithion wahardd y llongau a’r yscraffau a’r corygau, fel nad êl neb i Gymru; ac a ddêl yma o Gymru, carchara hwynt.”

I

“Uwch y ffin ddofn heb ofni,
Uwch y tywyn ei hewyn hi—
Hir y daith—cymer dy hynt
I’r cyrrau a gâr corwynt.

“Heria’r wendon aflonydd
A’i huchel fost os chwil fydd.
’Heda uwch ei lluwch a’i lli:
Anhunedd sydd hedd iddi.

“Ni fydd na llonydd na llain
I oedi ar dy adain.
Di-frig ydyw’r llwydfor hen:
Uwch ei ddŵr ni chei dderwen.

“Ni chei gwsg yn heddwch gwig,
Na rhosi aros orig,
Na thlws goed i’th lesg adain,
Na’th droed yn rhwydwaith y drain.

“Carcharor y croch oerwynt
Uwch môr wrth gyngor y gwynt
Yn rhwyfo mewn dewr afiaith
A fyddi di ar dy daith.

“ Nac ofna : gwêl awelon
Yn gwasgar hyd war y don,
Uwch y twyn, lewych tyner
Lloer a'i charn ar sarn y sêr.

“ Chwery ei llwch ar y lli,
A hudolus uwch dyli
Gloywa gem a diemwnt :
Siriola'r sêr heli'r swnt.

“ Bwrw adain sionc, ddibryder,
Fel saeth i ofal y sêr.
Chwardd, egwyl, uwch hwrdd eigion ;
Chwarae fig â dig y don.

“ Drwy gôl y nos dos i'r dydd
A lunia gwawr ysblennydd
Uwch rhosydd, mynydd a môr
Eryri, fy mhur oror.

“ Llithri o fôr i'r llathr fae
A'r wawr dyner ar donnau,
Tresi'r wawr tros Eryri
A'i gwrid llosg ar hyd y lli.

“ Teg y wawr : hudol olud
Draw a rydd i'r moelydd mud.
'Heda i'w brwyn a'u clogwyni :
'Heda o'r llain ger dŵr lli.

“ Nydda dy ffordd i'w nodded
Uwch bron yr afon a red
O fanwellt y llwyd fynydd
I'r môr drwy oror o wŷdd.

“ A glŷn wrth ei glannau hi
A’i si dawel, nes deuai
I fan y tardd unfaint wŷdd
O feini’r creigiog fynydd.

“ Yno’r nant a’i thant ni thau
Ger gwaed y grug hyd greigiau:
Lle unig y pŷn llonydd
A bro gain aber a gwŷdd.

“ Tyn ariant geunant, ar daith i’r gweunydd,
Ei rwydi grisial o’r gwridog rosydd:
Dirwyn ei foliant i’r cadarn foelydd,
A’i sain bereiddia holl swyn boreddydd.
Dilyn ei rawd i’r dolydd—oni red
I bridd fioled bro ddihefelydd.

“ ’Heda i ros y frodir wen,
Bro annwyl hiraeth Branwen.
Dena’r wawr dyner, eurwallt,
I’w theg wŷdd i blethu’i gwallt.
Yno’n yr hedd ger oerwedd Eryri
Mae arian byrth rhwng y mirain berthi,
Llawer gwyrdd yn lliwio’r gerddi—a llon
Suol awelon uwch rhos a lili.

“ Eheda’n awr i’r lwyd nos,
I eigion y gwyll agos.
Rho uwch gawr y croch gerrynt
Arian dy gân yn y gwynt.
Esgyn, ac wrth dy asgell
Hanes gwae di-orffwys gell
Un a rodiodd, fy nrudwen,
Erwau rhydd Eryri wen.

Yfory rhoi ddiferion
O'r ddyri brudd ar ei bron,
Y ddyri a edrydd hiraeth
Rhiain drist wrth estron draeth.

“Minnau, fel poen mewn mynor,
Yn hir a mud draw i'r môr
A syllaf ar dy afaith
Hyd y dŵr a llwybr dy daith,
Fel cerflun rhyw fun fynor
Uwch maith anwadalwch môr.

“I wybren 'heda'n ebrwydd.
Dyner was, cyfod yn rhwydd
O ddwylo oediog ar eiddil adain
I daran y môr, f'aderyn mirain.
Edrych, mae llewych fel llain—ar loywdwr
Yn bwrw ar y dŵr dy lwybr i'r dwyrain.”

II

“Oeda araf bladurwr
Islaw'r garth: noswylia'r gŵr.
Oeda fel rhyw wyliedydd
Ar ei dŵr yn gyrru'r dydd
I huddo'i danllwyth dros ddiwyd wynlli,
A gweu hyd lasnef ei rwysg a'i dlysni
Uwch tonnog faich y twyni.—Gardd o ros
A rydd i hwyrnos i orwedd arni.

“Tawodd y llethrau tywyll;
Hithau'r gog a aeth i'r gwyll.
Aeth yn swil wrth noswyllo
I drin ei hadanedd, dro.

O ramant tawel y rhimyn tywod
Fe gilia hoen a thwrf y gwyfanod
Ânt o hedd a rhyfeddod—hwyrddydd mwsg
I frwyn a chwsg ac i fryn a chysgod.

“ Ar y môr mae porffor pur
Yn lledu is llwyd asur
Y gorwel. Pwy sy'n gwario
Aur rhudd ar ei erwau o?

Mae'r dyfroedd anial yn llawn petalau
Hardd o liw gwin, lle 'roedd heli gynnau
Ond dylif llwyd, diolau.—Ar y dŵr
Ai rhyw swynwyr sy'n gwasgar rhosynnau?

“ Ar y dwfn fe ddyry dydd
Dân a gwaed yn gawodydd.
Gwridda'r aur: gwaeda'r arian:
A derfydd y dydd yn lân.

Ai gwylwyr Brân sy'n goleuo'r bryniau
A thanio'r grug a'r eithin ar greigiau
I gynnull yn ugeiniau—wŷr i'm plaid,
Hynod wroniaid y cryf darianau?

“ Gwylwyr Brân sydd yn goleuo'r bryniau
I alw i'r don y dewrion yn dyrrau.
Daw i'r llif hyder eu llefau.—Bloeddiant:
Yn gad y llithrant o goed y llethrau.

“ Fe rodia'r fanllef ar dwrf ewynlli.
Cyfyd llongau heirdd hwyliau ar ddyli,
Pob hwyl yn arian goleulan lili
Ac aur y don yn ymagor dani.
Fe ddeil hual eu pali—gyfrinion
Dyri'r awelon a grwydra'r heli.

“ Canant is hwyliau ceinwedd :
Golud y machlud a’u medd,
Golud y machlud a’r môr
Yn wyll aur i’w bell oror.

Ar fôr o cfydd mae cynnwrf rhwyfau
Yn rhwygo arian o’r llithrig erwau.
Naddant ar eigion gulion rigolau
A’u min liw eithin neu aur lywethau.
Hwy droant yn fodrwyau—a’u llachar
Erwau digymar yn rhwydo gemau.

“ Eira têr y baneri
Dan y lloer hyd ewyn lli,
Mor lân â’r arian a red
O’r rhwyfau chwim afrifed.

“ Dewr hwyliwch, fad wrolion,
Hyd ael lli yn deulu llon!
Rhwygwch wanegau’r eigion!
Rhwygwch a darniwch y don! . . .

“ Ffodd y sŵn. . . . Diffydd y sêr,
A llifa cysgod lleufer
Fel mwg neu ryw nifwl main
O ddorau’r pellaf ddwyrain.

“ Ni chyffry adar: dim ond galar gwylan
A ddaw o’r môr yn weddi i’r marian,
Dyrys gri dros y graean—anniddig.
Ai adlef unig o’m hoedl fy hunan?

“ Ni hedodd i dir, y drudwy mirain,
O’i ruthr hyderus i drothwy’r dwyrain.
Rhoed gwaed ei doredig adain—ar li,
Yn aberth heli, ymborth i wylain.

“ Ni ddaw llais o’r niwloedd llwyd :
Byr yw hedd a ddwg breuddwyd.
Dihangodd, crinodd fel cri
Rhyw wylan ym môr heli.
Draw’n y ffin ef a grinodd,
A’m hyder i yma drodd
Yn alar. . . . Pam na hwyli,
Fab Llŷr, drwy’r dilwybyr li?

III

“ Hir fliniais ar aflonydd
Ddwndwr y dŵr nos a dydd,
Disgwyl rhyw hwyl ar heli
Neu frig llong hyd farrug lli,
A chlywed gwŷr yn uchel hyd gyrrau
Y swnt oer, unig, a sain tarianau
Cewri fyrdd ar li’n cryfhau—a naid bloedd
Yn waedd i’r glynnoedd o ddŵr y glannau.

“ Aur hwyl ni throedia’r heli :
Ni ddaw llong dros ymchwydd lli,
Na llawen nwyf y rhwyfwr
Dewr ei daith hyd war y dŵr.
Ni ddaw o’r môr ond berwddwr y marian
Yn taenu hiraeth y tonnau arian
Ac wylo hyd y geulan—is oernad,
Newynog alwad, rhyw unig wylan.

“ Ni rydd môr ond ei wyrdd maith
A’i ddyfal, ryfedd afaith,
Neu su hiraeth y traeth trist,
A lithra fel chwedl athrist

Ag ynddi loes anhunedd yr oesoedd
A diflin weddi'r afrad flynyddoedd,
Gweddi hyder niferoedd—yn troi'n aeth,
A chwerwi'n alaeth yn nhorchau'r niwloedd.

“ Darfu pob prydferth chwerthin
Ger ffawd anhygar y ffin.
Daw'r ôd yn gawod i'm gwallt,
A'i dwf arian hyd f'eurwallt.

Gwywodd y rhudd a wridai fy ngruddiau,
A marw yw hun dan fy llesg amrannau.
Daw hagrwach wedi dagrau—a drygfyd,
A gwawr tros ennyd yw gwrid rhosynnau.

“ Gynnau, uwch maith rwgnach môr,
Tawel hoen y telynor
O lys Brân fel eos brudd
A dorrai. Daeth i'm deurudd .

Lif fy nagrau yn wylo f'unigrwydd,
Afon o ddagrau fy anniddigrwydd.
Diflin, dan benyd aflwydd—a chyni,
Yw ing yr oedi ym mro 'ngwaradrwydd.

“ Byr yw hedd a ddwg breuddwyd,
A rhydd lleddf unigrwydd llwyd
Ei hwyrddydd ar fy harddwch:
Nesâ awr y llawr a'r llwch.

Mi blygaf sidan pob mwyn ddiddanwch,
Oriau a dyddiau yr hen ddedwyddwch:
Gwyraf i'r bedd a'i heddwch—mewn daear,
I hun dialar ei hen dawelwch.”

IV

Darfu dy hiraeth dirfawr :
 Llwch dy dynerwch yn awr.
 Darfu megis y derfydd
 Gwawl ar don pan gilia'r dydd.
 Ond daeth dy osber o fryniau Erin
 Yn gân o ofid i'th hen gynefin.
 Hi a ffoes dros donnau'r ffin—yn felys
 Alaw a crys yng nghôl y werin.

Murmur môr am wae hiraeth
 D'oriau trist ger dwndwr traeth
 Unig, pellenig, a llif
 Anwadalwch maith dylif.
 Treigla'r awelon ddwsmel dy helynt;
 Mewn niwl a hindda mae'n alaw ynddynt.
 Ei thôn gain a nytha'n y gwynt—a'r brwyn;
 Ei hyder addwyn sy'n gynnwrf drwyddynt.

Daw rhyw fardd heibio i'th harddwch,
 A chwyd ei lais uwch dy lwch :
 “ Harddwch nid ofna hyrddwynt,
 Na maith her amser a'i hynt.

“ Nid oes ffin i'w deg rinwedd.
 Ni cheir byth yng ngharchar bedd
 I'w adanedd gadwyni :
 Nid ofna lef y dwfn li.

“ Pan fo hud machlud ym môr,
 Gwridog aur ar deg oror
 Y mynydd a'r gwŷdd yn gwau,
 Doi, Franwen, ar dy fryniau.

“ Arnat mae gwrid yr hwyrnos,
A chwery hardd lewych rhos
Yn gylch o’th amgylch, a thêr
Emau o liwiau lawer.

“ Dagrau oedd y gemau gynt,
A gwena’n deg ohonynt
Holl oriau blin llawer blwydd,
Y dagrau’n odidowgrwydd!

“ Tyner a dibryderi,
Mwyn, a doeth dy dremyn di,
Doeth â chyfoeth ni chafwyd
Ond yn y lleddf donnau llwyd.

“ Tristwch yn harddwch a aeth,
A hudolus yw d’alaeth.
Oni chwardd o’i lewych ef
Aeddfedrwydd harddaf hydref?

“ Hir yw hedd a ddwg breuddwyd,
A rhydd lleddf unigrwydd llwyd
Ei urddas ar dy harddwch,
A’i ddrud liw sydd ar dy lwch.
Dy hiraeth a roes ledrith i’r oesau:
Dy ruddwawr, Branwen, a drodd i’r bryniau.
Fel islais pêr aberau—dy dristwch
Chwery’n nwn heddwch yr hen fynyddau.”

